Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Y Fenni
# Heol Dewi Sant
# Y Fenni
# Sir Fynwy
# NP7 6HF

# Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/04/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymraeg Y Fenni yn nhref Y Fenni yn Sir Fynwy. Mae’r dalgylch yn gwasanaethu’r dref a’r pentrefi cyfagos.

Mae 252 disgybl rhwng 3 ac 11 mlwydd oed ar y gofrestr, ffigwr sy’n cynnwys 30 disgybl oed meithrin rhan-amser. Fe’u rhennir yn naw dosbarth, sy’n cynnwys tri sydd â disgyblion oed cymysg.

Mae 11% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim ac mae gan 18% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn o’r disgyblion sy’n dod o gartrefi lle mae’r Gymraeg yn iaith yr aelwyd, neu sydd o gefndir lleiafrif ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2010. Mae’r pennaeth yn ei swydd ers mis Ionawr 2013.

Y gyllideb unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg y Fenni yn 2016-2017 yw £3,456. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Fynwy yw £5,011 a'r lleiafswm yw £2,837. Mae Ysgol Gymraeg y Fenni yn y 18fed safle o'r 30 ysgol gynradd yn Sir Fynwy o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cadarn sy'n rhoi mynediad llawn iddynt i weithgareddau a phrofiadau gwerthfawr sy'n cyfoethogi eu dysgu
- y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl yn hynod o effeithiol ac, o ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion hyn, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn cyflawni safonau da iawn ar draws y cwricwlwm gydag ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd ardderchog mewn mathemateg
- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg, a hynny o fan cychwyn isel
- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymroi'n llwyr i'w gwaith ac yn canolbwyntio'n frwdfrydig wrth gwblhau tasgau i safon uchel
- lefelau presenoldeb y disgyblion yn ardderchog
- yr holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus iawn er mwyn darparu profiadau ysgogol a rhaglenni dysgu sy'n cyffroi bron pob disgybl
- ganddi gynlluniau arbennig iawn ar gyfer diwallu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol trwy gynlluniau gwaith thematig manwl
- athrawon yn defnyddio strategaethau rhagorol ar gyfer hyrwyddo a datblygu medrau llafar y disgyblion
- ganddi ystod o weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion, sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn cynllunio a sicrhau cynnydd

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn arwain yn effeithiol, ac yn cynllunio a datblygu cyfeiriad strategol cadarn i'w gwella
- gweledigaeth arweinwyr yn canolbwyntio'n glir ar ddiwallu anghenion y disgyblion trwy ddarparu cwricwlwm cyffrous a phrofiadau cofiadwy iddynt
- yr uwch dîm rheoli yn gadarn ac yn cydweithio'n effeithiol er mwyn ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau gwella'r ysgol, herio perfformiad a chodi safonau
- arweinwyr wedi datblygu rhaglen hunanarfarnu effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, trafodaethau agored ac ethos o gynllunio parhaus sy'n sicrhau gwelliannau nodedig mewn mannau pwysig
- y llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella yn dda, yn gyfranwyr deallus mewn trafodaethau sy'n ymwneud â chyrhaeddiad

a'i pherfformiad, ac yn rhan allweddol o gynllunio ar gyfer gwelliant a monitro'r cynllun datblygu
- yr ysgol yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol â'r rhieni er mwyn rhaeadru gwybodaeth werthfawr ynglŷn â sut gallant gefnogi addysg eu plant

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, i'w galluogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A2 Sicrhau bod adborth yr athrawon yn galluogi disgyblion i ddeall yn union beth sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella'u medrau

A3 Mynd i'r afael â'r pryder diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn eu defnyddio'n llwyddiannus er mwyn cael mynediad llawn i weithgareddau a phrofiadau gwerthfawr sy'n cyfoethogi eu dysgu. Mae eu gallu i gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg, a hynny o fan cychwyn isel, yn gryfder yn yr ysgol. Erbyn diwedd eu cyfnod yno, mae gan lawer fedrau meddwl da. Mae ychydig o'r disgyblion mwy abl yn dadansoddi ac yn esbonio ymchwiliadau gwyddonol a digwyddiadau hanesyddol mewn modd aeddfed ac ymarferol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn siarad yn fyrlymus am eu gwaith. Maent yn defnyddio geirfa ac ymadroddion cyfoethog wrth iddynt ymgolli mewn byd ffantasi a chreadigol, wrth ddisgrifio priodweddau môr ladron dychmygus, er enghraifft.

Mae'r cynnydd a'r agwedd gadarnhaol hon tuag at y Gymraeg yn parhau trwy gydol cyfnod allweddol 2. Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn dda iawn ac maent yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod o gyd-destunau yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfleu eu syniadau a'u teimladau'n glir ac yn ddealladwy ar lafar, gan roi sylw manwl i'r hyn sydd gan eraill i'w ddweud. Un o gryfderau'r disgyblion yw'r modd y maent yn holi'n fedrus er mwyn derbyn syniadau a chyfrannu'n synhwyrol trwy ystyried safbwynt pobl eraill. Er enghraifft, maent yn cyflwyno areithiau diddorol am gyflogau uchel pêldroedwyr a dadleuon o blaid ac yn erbyn golygu lluniau unigolion yn y diwydiant iechyd a harddwch.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau ysgrifennu yn llwyddiannus ar draws ystod dda o feysydd dysgu. Mae'r disgyblion hŷn ym mlwyddyn 2 yn ysgrifennu'n estynedig ac yn cyfleu a datblygu eu syniadau'n gynyddol. Maent yn creu brawddegau cysylltiedig yn gywir, yn atalnodi'n briodol ac yn defnyddio ystod eang o eirfa gyfoethog gyda chywirdeb cyson, wrth greu proffil yr Olympwraig leol, Becky James, er enghraifft.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod briodol o arddulliau ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith. Maent yn strwythuro'u gwaith yn effeithiol yn ôl anghenion a chyd-destun y gynulleidfa, gan ddefnyddio teitlau ac is-benawdau'n ddeallus wrth gyflwyno gwaith ffeithiol. Maent yn amrywio brawddegau'n briodol er mwyn bachu sylw'r darllenydd. Maent yn ymgolli'n llwyr yn eu gwaith ysgrifennu, er enghraifft wrth gyflwyno gwaith yn seiliedig ar fywyd plentyn yn ystod y Blits a bywgraffiadau manwl o'r Fam Teresa. Mae gwaith ysgrifennu creadigol llawer o'r disgyblion o safon uchel. Enghraifft ardderchog o hyn yw'r cerddi a gyfansoddwyd ganddynt ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y Fenni yn dathlu bywyd Arglwyddes Llanofer.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus ac yn defnyddio'u medrau sganio a llithr-ddarllen yn effeithiol, er enghraifft wrth gaffael gwybodaeth am Santa Lucia. Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o brif ddigwyddiadau a syniadau mewn storïau a deunydd ffeithiol ac mae lleiafrif yn dechrau trafod hoff gymeriadau mewn llyfrau. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn addas i'w hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Maent yn darllen ffuglen yn rhugl ac yn awyddus i esbonio pwy yw eu hoff gymeriadau, yn ogystal â pha awduron sy'n apelio atynt. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn mynegi barn am amrywiaeth eang o destunau gan gyfeirio at blot, cymeriadau a rhai agweddau ar arddull. Mae llawer yn defnyddio ystod dda o uwch fedrau darllen cadarn i ddarganfod ffeithiau o wahanol ffynonellau yn gyflym. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn cywain gwybodaeth o'r we am dlodi eithafol yn Haiti.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn ac maent yn gwneud cynnydd buddiol yn eu gallu i gaffael eu medrau mewn gwaith trawsgwricwlaidd. Mae medrau rhif y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda o oed cynnar ac maent yn cyfri, trefnu a thrin arian yn hyderus. Mae bron pob un o'r disgyblion iau yn adio a thynnu degau ac unedau yn gywir. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle, siapiau dau-ddimensiwn, llinellau elfennol o gymesuredd a mesurau sylfaenol. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio tablau, diagramau a graffiau syml yn gywir er mwyn casglu a chyflwyno gwybodaeth. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ffeithiau rhif yn hyderus hyd at 100 wrth gyfrifo ac mae lleiafrif o'r disgyblion mwy abl yn datrys problemau rhifau pum digid yn gyson hyderus.

Mae cyflawniad y rhan fwyaf o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn gwersi mathemateg yn dda iawn. Mae llawer yn casglu, dehongli a chyflwyno data perthnasol mewn gwahanol bynciau yn llwyddiannus. Maent yn ymateb yn dda iawn i weithgareddau datrys problemau, er enghraifft wrth gyfrifo costau ac elw mentrau masnachol, a thrwy ddatrys codau a negeseuon cyfrinachol Bletchley Park. Wrth ymgymryd â thasgau rhifedd ymarferol yn yr ysgol goedwig, mae llawer yn trafod canlyniadau posibl ac yn rhagdybio beth all ddigwydd er mwyn adeiladu'n gadarn ar ddealltwriaeth flaenorol. Mae llawer yn gwirio eu rhagdybiaethau'n llwyddiannus yn ystod ymchwiliadau gwyddonol. Er enghraifft, maent yn cymharu ynysiad deunyddiau gwahanol wrth gynllunio a chreu dillad addas ar gyfer ymarfer corff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn storio ac yn adalw gwaith electronig yn llwyddiannus ac yn annibynnol. Maent yn trafod, yn creu ac yn cyflwyno gwybodaeth a syniadau'n fedrus mewn gwahanol ffurfiau gan ddefnyddio testun, delweddau, lluniau a sain. Mae medrau TGCh llawer yn datblygu'n gynyddol dda, yn enwedig wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau ymchwil syml, trin data a datrys problemau. Mae gallu'r rhan fwyaf i reoli a rhaglennu teganau symudol yn datblygu'n briodol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn siarad yn synhwyrol am yr angen i gymryd gofal wrth rannu gwybodaeth ar-lein. Mae'r disgyblion hŷn yn weithredol iawn wrth addysgu'r disgyblion iau am e-ddiogelwch. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o raglenni prosesu geiriau wrth gynllunio a chyrchu cyflwyniadau safonol. Maent yn fedrus wrth ymchwilio ar y we ac mae'r lleiafrif yn ymwybodol o'r angen i ystyried hawlfraint wrth ategu lluniau a chlipiau fideo i'w gwaith, wrth greu codau 'QR' penodol sy'n tywys defnyddwyr i fwynhau cyflwyniadau cynhwysfawr ar arweinwyr crefyddau'r byd, er enghraifft.

Dros amser, mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad y merched a'r bechgyn wedi lleihau ar y deilliannau a'r lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch. Nid oes unrhyw batrwm cyson o dangyflawni. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn cyflawni safonau da iawn ar draws y cwricwlwm. Mae ychydig o ddisgyblion sy'n eithriadol o abl yn gwneud cynnydd ardderchog yn eu gwaith mathemateg ac ysgrifennu.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwyliedig wedi amrywio ar draws pob maes dysgu o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg wedi bod yn gyson yn yr 50% uwch. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 50% is. Mae perfformiad y disgyblion ar ddeilliant 6 mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% uchaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg a Saesneg wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% uchaf, o gymharu ag ysgolion tebyg dros bedair blynedd. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 50% is. Mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch na'r disgwyl dros yr un cyfnod wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 25% uchaf ym mhob pwnc.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymroi'n llwyr i'w gwaith. Maent yn canolbwyntio'n frwdfrydig wrth gwblhau tasgau, yn gosod disgwyliadau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn awyddus i gyflawni gwaith i safon uchel. Mae safon ymddygiad bron pob un mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r ethos teuluol a byrlymus sy'n hyrwyddo dysgu a lles pob unigolyn.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n effeithiol at egwyddorion a gweledigaeth yr ysgol. Maent yn weithredol iawn ac yn gwneud penderfyniadau pwysig sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb ac yn annog disgyblion eraill i weithredu fel dinasyddion cyfrifol sy'n cefnogi cynaliadwyedd. Mae aelodau'r pwyllgorau'n darparu adroddiadau cynhwysfawr er mwyn cynghori llywodraethwyr ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar y we, bwlian a bwyta'n iach. Maent hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y broses cyfweld ymgeiswyr i swyddi yn yr ysgol, er enghraifft wrth benodi dirprwy bennaeth newydd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn cymryd rhan flaenllaw wrth hyrwyddo'r siarter iaith, ailgylchu a datblygu'r ardaloedd allanol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn manteisio'n llwyddiannus ar y cyfleoedd rheolaidd sy'n bodoli iddyn nhw fynegi barn ar yr hyn maent am ddysgu, i ddatblygu syniadau a thrafod gweithgareddau'r dosbarth. Serch hyn, nid yw gallu ychydig o ddisgyblion i weithio'n annibynnol yn datblygu'n ddigon cadarn.

Mae'r disgyblion yn awyddus iawn i godi arian at elusennau o fewn eu cymuned ac yn fyd-eang ac mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o sefyllfaoedd pobl lai ffodus ac anghenus.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Maent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod oedolion yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu cymryd o ddifrif. Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd cadw'n iach trwy gymryd rhan yn yr amrywiaeth gyfoethog o glybiau allgyrsiol a chwaraeon sydd ar gael iddyn nhw. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn trefnu gweithgareddau corfforol i'r plant iau yn ystod amser cinio yn rheolaidd. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo'r arfer o fwyta'n iach wrth redeg y siop ffrwythau yn ddyddiol. Mae'r 'Arwyr TGCh' yn sicrhau bod eu cyfoedion yn derbyn cyngor buddiol er mwyn eu cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we. Mae'r gweithgareddau cynhwysfawr hyn yn cyfrannu'n dda tuag at godi safonau iechyd a lles llawer o ddisgyblion.

Mae lefelau presenoldeb yn ardderchog ac yn gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus iawn er mwyn darparu profiadau ysgogol a rhaglenni dysgu diddorol sy'n cyffroi bron pob disgybl. Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gan addasu'r cynlluniau'n fedrus er mwyn diwallu anghenion bron pob disgybl yn greadigol iawn. O ganlyniad, maent yn derbyn ystod arbennig o gyfleoedd dysgu sydd o ansawdd uchel.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi'u gwreiddio'n gadarn ac mae'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd allanol a thu mewn yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus iawn. Yn ddiweddar, cryfhawyd yr agwedd hon ymhellach wrth i ddisgyblion ymweld â'r ysgol goedwig sydd wedi ei lleoli nid nepell o'r ysgol. Mae athrawon yn defnyddio'r adnodd hwn yn effeithiol iawn er mwyn darparu gweithgareddau ymarferol eithriadol o effeithiol, sy'n apelio at ddysgwyr anfodlon a bregus. Mae hyn wedi arwain at gynnydd da iawn mewn safonau llythrennedd a rhifedd llawer o ddisgyblion, yn ogystal â'u medrau personol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau arbennig iawn ar gyfer diwallu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol trwy gynlluniau gwaith thematig manwl ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r dilyniant a'r parhad yn y cynllunio a'r addysgu ar gyfer datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae'r strategaethau rhagorol sydd ar waith ar gyfer hyrwyddo a datblygu medrau llafar y disgyblion yn effeithiol iawn ac yn codi safonau bron pob disgybl o waelodlin isel. Mae pob aelod staff yn defnyddio ystumiau corfforol i atgoffa disgyblion i ddefnyddio ymadroddion perthnasol a phwerus wrth fynegi barn ar lafar.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu disgyblion mwy abl a thalentog yn hynod o effeithiol. Trefnir bod ychydig o ddisgyblion mwy galluog yn derbyn gwersi llythrennedd a rhifedd yn yr ysgol uwchradd leol. Mae'r ysgol hefyd yn ymateb yn

dda iawn i anghenion ychydig o ddisgyblion mwy abl yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cynlluniau gwaith ac amserlenni hyblyg yn sicrhau darpariaeth ddiddorol mewn mathemateg sy'n eu herio'n fedrus i weithio gyda disgyblion hŷn yr ysgol. Mae hyn yn drefniant arbennig sy'n arwain at godi safonau'r disgyblion hyn mewn meysydd arbennig i lefelau sydd uwchlaw disgwyliadau cenedlaethol.

Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg y disgyblion yn ardderchog ac yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon, ynghyd â chyfleoedd niferus i ddysgu am ddiwylliant a hanes lleol a Chymru, yn cyfoethogi ethos Cymreig cryf iawn yr ysgol. Mae cyfleoedd helaeth i'r disgyblion ymweld ag atyniadau a safleoedd pwysig sy'n gysylltiedig â diwylliant yr ardal. Mae ymweliadau diweddar gan Fardd Plant Cymru wedi datblygu ymhellach ymdeimlad o falchder ymysg bron pob un o'r disgyblion tuag at eu hiaith a'u treftadaeth.

Dan arweiniad y pwyllgor eco, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ystyrlon i'r disgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd trwy ailgylchu yn eang. Mae'r ysgol yn darparu ystod effeithiol o weithgareddau ysgogol a diddorol sy'n datblygu dealltwriaeth y disgyblion o fywyd mewn gwledydd eraill ar draws y byd. Mae'r ysgol wedi darparu sylw buddiol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn sgîl hyn, mae'r disgyblion wedi llythyru cwmni masnachol er mwyn codi pryderon ynglŷn â'u polisi o gyflogi plant i gynaeafu cnydau.

Mae gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys teithiau i fannau diddorol, gweithdai a chyflwyniadau gan ymwelwyr, yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Mae'r disgyblion yn elwa'n hynod dda o weithgareddau fel clybiau chwaraeon ar ôl ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu a ddarperir gan bron pob un o'r athrawon yn gadarn dda ar draws yr ysgol. Mae gan bob un o'r athrawon berthynas weithio gadarnhaol iawn gyda'r disgyblion ac maent yn cynllunio gwaith ar gyfer y staff cymorth yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion unigolion a grwpiau penodol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol drwyadl a chyfoes, ac maent yn defnyddio adnoddau yn effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Maent yn rhannu amcanion gwersi yn glir gyda'r disgyblion ac yn eu hadolygu'n effeithiol ar y diwedd pob sesiwn. Drwyddi draw, mae'r cyflwyniadau'n fywiog ac mae llawer o athrawon yn holi'n bwrpasol gan ddefnyddio cwestiynau agored sy'n datblygu medrau llafar a meddwl disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae tueddiad gan athrawon i arwain y disgyblion yn ormodol. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ychydig o ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a fyddai'n eu galluogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn defnyddio strategaethau amrywiol i greu meini prawf llwyddiant. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi ac yn marcio gwaith disgyblion yn gyson. Mae'r rhan fwyaf yn nodi'r cryfderau ac yn cynnig sylwadau adeiladol i gynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella cynnwys eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw sylwadau'r athrawon bob tro yn ddigon miniog er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwybod beth yn union sydd angen iddyn nhw ei wneud i ddatblygu eu medrau'n gynyddol o un darn o waith i'r nesaf.

Mae gan yr ysgol ystod o weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Trwy weithredu'r rhain yn gyson, maent yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn cynllunio'n briodol ar gyfer diwallu anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion, gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Mae gan yr ysgol drefniadau hynod effeithiol i asesu, monitro ac olrhain cynnydd gwaith llafar y disgyblion, yn benodol.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel. Mae trefniadau cadarn yn sicrhau bod y staff yn gwerthfawrogi ac yn dathlu llwyddiannau a chyfraniadau disgyblion yn briodol. Wrth wobrwyo disgyblion, mae'r athrawon yn sicrhau bod y rhieni hefyd yn derbyn neges destun er mwyn eu hysbysu o'r clod sy'n ddyledus i'w plentyn. Mae hwn yn drefniant effeithiol iawn sy'n cael effaith ardderchog ar gymhelliant disgyblion i lwyddo.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn briodol trwy gyfrwng themâu pwrpasol a chyfleoedd rheolaidd i gyd-addoli. Er enghraifft, mae gweithgareddau awyr agored yn ysgol y goedwig yn hyrwyddo gwerthoedd da o ran ymddiriedaeth, cyfrifoldeb, gonestrwydd, parch a gwaith tîm yn effeithiol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau bywyd pwysig fel cydweithio a gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer defnyddio gwasanaethau arbenigol fel y seicolegydd addysg a'r therapydd iaith a lleferydd yn effeithiol. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar strategaethau addysgu'r athrawon ac yn codi safonau a lles llawer o ddisgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn cynllunio gweithgareddau buddiol gydag asiantaethau allanol, fel yr heddlu a'r frigâd dân, er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblion am gamddefnydd cyffuriau ac alcohol, a diogelwch tân.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr o safon uchel i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion dysgu'r disgyblion hyn yn gynnar ac yn cynllunio rhaglenni ymyrraeth amrywiol yn effeithiol iddynt. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r holl aelodau'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn eu trin yn deg a chyda pharch. Mae'r ysgol yn cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol i bob disgybl. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr sydd wedi eu gwreiddio er mwyn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw gŵyn yn ymwneud â rhagfarn neu achos o fwlio, pe bai'n codi.

Mae'r dosbarthiadau’n cael eu trefnu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod anghenion y disgyblion yn cael eu diwallu a bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol y cwricwlwm. Mae staff yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd effeithiol o ardaloedd cysgodol awyr agored sydd wedi’u cysylltu â phob dosbarth ac yn rhoi mynediad hwylus a hygyrch i’r offer a’r gweithgareddau. Mae’r ardaloedd gwyrdd allanol yn eang, ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion ddysgu yn yr awyr agored. Mae’r safonau glanweithdra’n uchel ac mae’r adeilad a’r safle yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda. Er hyn, yn ystod yr arolygiad, tynnwyd sylw cadeirydd y corff llywodraethol at fater diogelwch.

Mae’r ysgol wedi buddsoddi’n helaeth er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion gyflenwad da o adnoddau ar gyfer cyflwyno’r cwricwlwm, gan gynnwys ystod fuddiol o adnoddau TGCh ac addysg gorfforol. Mae hyn yn cynnwys cyflenwad defnyddiol o lechi technoleg sy’n cael eu defnyddio’n bwrpasol yn ystod y gwersi.

Mae’r ysgol yn arddangos gwaith disgyblion ac yn dathlu eu llwyddiannau yn yr ystafelloedd dosbarth a’r mannau cyhoeddus yn gelfydd, sy’n rhoi bri ar eu cyflawniadau. Mae’r rhain yn ychwanegu at yr ethos cartrefol a chroesawgar sy’n bodoli yno.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol trwy gynllunio strategol manwl sy’n rhoi cyfeiriad clir a chadarn iddi ddatblygu. Mae’r weledigaeth hon yn canolbwyntio’n glir ar ddiwallu anghenion y disgyblion trwy ddarparu cwricwlwm cyffrous a phrofiadau cofiadwy i’r disgyblion. Mae’n llwyddo i ddatblygu gweithlu ymroddedig a chydwybodol sy’n rhannu’r un egwyddorion uchelgeisiol. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn cynllunio’n systematig i godi a chynnal safonau a datblygu dysgwyr dwyieithog, hyderus.

Cefnogir y pennaeth yn llwyddiannus gan aelodau uwch dîm rheoli cadarn. Dros amser, maent wedi cydweithio’n effeithiol er mwyn ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau’r ysgol, gan herio perfformiad a chodi safonau. Mae eu cyfrifoldebau a’u dyletswyddau penodol wedi'u diffinio'n glir ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn ysgwyddo’u cyfrifoldebau yn fedrus er mwyn cefnogi gwaith y pennaeth yn effeithiol. Mae hyn yn darparu profiadau arweinyddol gwerthfawr iddynt ar gyfer y dyfodol wrth iddynt fanteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i reoli staff ac arwain mentrau ysgol gyfan yn fedrus. O ganlyniad, mae safonau llafar Cymraeg, medrau TGCh a chyrhaeddiad disgyblion mwy abl wedi codi.

Mae gan yr ysgol raglen gadarn ar gyfer rheoli perfformiad a hyfforddi staff. Mae’r trefniadau yn ymateb yn dda i anghenion ysgol ac yn cynnwys cyfleoedd cadarn i alluogi athrawon a chynorthwywyr i herio’u perfformiad a datblygu’n broffesiynol.

Mae’r ysgol yn rhoi sylw manwl i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae’n cynllunio’n effeithiol ar gyfer datblygu medrau cymhwysedd digidol disgyblion

ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd eang i ddisgyblion mwy abl ddatblygu eu medrau rhifedd ac i gymryd rhan mewn gweithdai ysgrifennu ymestynnol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn gwerthfawrogi'r gwaith a wna'r staff ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol er mwyn gweithredu fel cyfeillion beirniadol a chefnogol. Mae'r cadeirydd yn ymwelydd cyson â'r ysgol wrth iddi wirfoddoli'n rheolaidd er mwyn cyfrannu at brofiadau addysgol y disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn wybodus am flaenoriaethau gwella'r ysgol ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad y disgyblion o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r llywodraethwyr yn rheoli materion yn ymwneud â safonau dysgu ac addysgu yn effeithiol ac yn herio unrhyw batrymau nodedig sy'n codi, wrth iddynt graffu ar ddata'r ysgol neu'n dilyn gweithgarwch monitro uniongyrchol arall.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gan yr ysgol drefniadau effeithiol er mwyn adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Dros gyfnod, mae arweinwyr wedi creu ethos o gynllunio parhaus sydd wedi arwain at welliannau nodedig mewn mannau pwysig.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn seiliedig ar drafodaethau agored sy'n dilyn rhaglen fonitro rymus o arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae'r holl staff yn dadansoddi data perfformiad yn fanwl ac mae cyfarfodydd athrawon yn canolbwyntio'n glir ar adnabod tueddiadau. Mae hyn yn arwain at sefydlu camau gweithredu addas sy'n mynd i'r afael â'r diffygion yn effeithiol. Mae arweinwyr hefyd yn darparu cyfleoedd cyson i rieni, disgyblion, llywodraethwyr a staff fynegi barn ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu dealltwriaeth o'r ddarpariaeth a safonau lles. Mae'r ysgol yn parchu barn y rhanddeiliaid ac yn gweithredu'n gyflym ar ganfyddiadau.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun gonest o waith yr ysgol. Mae'n dod i farn glir ar safonau cyrhaeddiad disgyblion, yn nodi'r mannau sydd angen gwelliant ac yn gweithredu'n briodol er mwyn mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i ddeilliannau gwerthusiad trylwyr o safonau llafar Cymraeg y disgyblion, trwy ddatblygu strategaethau ardderchog ar gyfer asesu a datblygu medrau llafar ar draws y cwricwlwm.

Mae cyswllt cadarn yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o ddeilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a thargedau gwella'r cynllun datblygu. Mae is-gynlluniau datblygu manwl ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau wedi eu costio'n ofalus. Maent yn nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol a rhoddir ystyriaethau amser addas ar gyfer eu cwblhau. Mae gweithgareddau cysylltiedig yn cynnwys dangosyddion llwyddiant clir a thargedau mesuradwy priodol.

Mae'r llywodraethwyr yn defnyddio data perfformiad yn effeithiol er mwyn barnu safonau'r ysgol. Maent yn cyfrannu'n briodol at y gweithdrefnau hunanarfarnu trwy ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Maent yn gyfranwyr deallus mewn trafodaethau yn ymwneud â chyrhaeddiad a pherfformiad yr ysgol ac yn rhan allweddol o gynllunio ar gyfer gwelliant a monitro'r cynllun datblygu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o bartneriaethau buddiol sy’n cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau. Mae perthynas lwyddiannus yn bodoli rhwng y rhieni a’r ysgol. Maent yn cyfrannu’n rheolaidd at addysg eu plant drwy wirfoddoli i ddarllen gyda grwpiau o ddisgyblion, arwain gweithgareddau iaith a chyfrannu at themâu arbenigol yn yr ysgol goedwig. Mae’r ysgol yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol â’r rhieni er mwyn rhaeadru gwybodaeth werthfawr ynglŷn â sut gallent gefnogi addysg eu plant. Elfen gref o waith yr ysgol yw’r modd y mae athrawon yn rhannu adborth dyddiol â hwy ynglŷn â chyflawniad, ymddygiad ac ymdrech eu plant drwy raglen gymdeithasol ryngweithiol.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gydag ysgolion ar draws y consortiwm rhanbarthol drwy arwain ar agweddau o asesu gwaith llafar a safonau TGCh y disgyblion. Mae gweithdrefnau cadarn yn bodoli ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar draws yr ysgolion cynradd a’r ysgol uwchradd. Mae’r arfer hon wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol berthynas agos â’r cylch meithrin sy’n cwrdd mewn adeilad ar dir yr ysgol. Mae hyn yn helpu’r plant i ymgyfarwyddo’n gyflym â bywyd yr ysgol. Fel rhan o drefniadau pontio, mae’r disgyblion hŷn yn derbyn gwersi yn yr ysgol uwchradd ac, o ganlyniad, maent yn trosglwyddo’n hyderus i Flwyddyn 7.

Mae disgyblion yr ysgol yn weledol iawn yn y gymdeithas a’r gymuned leol. Mae’r athrawon yn gwneud defnydd addas o’r amgueddfa a’r castell lleol er mwyn cyfoethogi’r ddarpariaeth ac ehangu profiadau disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ysgol wedi datblygu llecyn o dir ar gartref gofal lleol er mwyn creu ysgol goedwig ac mae’r disgyblion yn canu ac yn cyfrannu rhoddion er mwyn diolch iddynt. O ganlyniad, mae’r ysgol yn hyrwyddo ymdeimlad cadarn o gyfrifoldeb cymunedol ymysg y disgyblion. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol iawn gyda’r bwrdd iechyd er mwyn cynnig cyfleoedd priodol i’r disgyblion ddefnyddio’u Cymraeg yn y gymuned trwy gysylltu’r iaith â swyddi proffesiynol yn yr ysbyty. Mae gan yr ysgol berthynas adeiladol â’r awdurdod lleol a’r consortiwm rhanbarthol ac maent yn defnyddio eu cefnogaeth arbenigol yn fwriadus i godi safonau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o athrawon a chymorthyddion sy’n gymwys i ddarparu addysg gytbwys, eang a chyfoes i’w disgyblion. Mae’r pennaeth yn rheoli staff yn dda, gan fuddsoddi mewn hyfforddiant arbenigol i’w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau’n effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gref ar safonau a lles disgyblion. Mae’r cymorthyddion yn gwneud cyfraniad cadarn at godi safonau grwpiau penodol o ddisgyblion ac yn cefnogi unigolion yn effeithiol. Er enghraifft, maent wedi derbyn hyfforddiant dwys i dargedu anghenion iaith a llafaredd.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad pob aelod staff yn gadarn ac yn arwain at gyfleoedd eang a pherthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn cysylltu’n glir â blaenoriaethau ysgol. Mae’r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gynllun manwl ar gyfer defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion, sy’n nodi cefnogaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion difreintiedig. Enghraifft o hyn yw’r ddarpariaeth ar gyfer codi safonau medrau rhifedd a llythrennedd grwpiau o ddisgyblion yn ogystal â darparu cefnogaeth emosiynol ac ymweliadau preswyl i unigolion. Mae’r ysgol yn monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion yn llwyddiannus.

Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae’r pennaeth, yr uwch dîm rheoli a’r corff llywodraethol yn monitro’r gwariant yn ofalus a thrwyadl. O ystyried cyflawniadau’r disgyblion, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6792317 - Ysgol Gymraeg Y Fenni**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 213 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.7 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 24 | 28 | 25 | 36 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 91.7 | 92.9 | 92.0 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 28 | 25 | 36 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 96.4 | 96.0 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.8 | 42.9 | 44.0 | 58.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 28 | 25 | 36 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 96.4 | 92.0 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.7 | 39.3 | 48.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 28 | 25 | 36 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 46.4 | 52.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6792317 - Ysgol Gymraeg Y Fenni**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 213 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.7 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 15 | 24 | 22 | 26 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 86.7 | 95.8 | 95.5 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 24 | 22 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 95.8 | 95.5 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 50.0 | 54.5 | 57.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 24 | 22 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 95.8 | 95.5 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 37.5 | 45.5 | 53.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 24 | 22 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 95.8 | 95.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 45.8 | 63.6 | 65.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 24 | 22 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 95.8 | 95.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 45.8 | 63.6 | 61.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 99 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 100 | 91 | 9 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 100 | 95 | 5 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 92 | 8 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 84 | 16 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 84% | 16% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 100 | 95 | 5 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 100 | 100 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 100 | 98 | 2 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 100 | 84 | 16 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 84% | 16% | |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 100 | 95 | 5 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 100 | 89 | 11 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 89% | 11% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 100 | 85 | 15 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 85% | 15% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 112 | 71 | 40 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 36% | 1% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 112 | 78 | 32 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 29% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 112 | 82 | 29 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 112 | 76 | 32 | 4 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 68% | 29% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 112 | 58 | 54 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 52% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 112 | 67 | 43 | 2 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 112 | 72 | 40 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 110 | 37 | 57 | 6 | 2 | 8 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 34% | 52% | 5% | 2% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 112 | 65 | 41 | 2 | 2 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 37% | 2% | 2% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 111 | 68 | 38 | 3 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 111 | 79 | 31 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 111 | 61 | 36 | 4 | 0 | 10 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 55% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 112 | 56 | 49 | 6 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 44% | 5% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 112 | 66<br>59% | 41<br>37% | 4<br>4% | 1<br>1% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 112 | 44<br>39% | 48<br>43% | 8<br>7% | 0<br>0% | 12 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 112 | 57<br>51% | 51<br>46% | 2<br>2% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 107 | 42<br>39% | 36<br>34% | 0<br>0% | 1<br>1% | 28 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 111 | 62<br>56% | 48<br>43% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 111 | 73<br>66% | 36<br>32% | 1<br>1% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Vanessa Bowen | Arolygydd Tîm |
| Jeff Davies | Arolygydd Lleyg |
| Dylan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| April Wiggins | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.